I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

NOSC 2026 Rhif 202

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 2026

Gwnaed	*25 Tachwedd 2026*
Yn dod i rym	*26 Tachwedd 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124(3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Tachwedd 2026.

Dehongli

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), diwygiwyd adran 124(3) gan adran 2(2) o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

W E L S H S U B O R D I N A T E
L E G I S L A T I O N

NWSI 2026 No. 202

ROAD TRAFFIC

The A5 Trunk Road (Bethesda, Gwynedd) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 2026

Made	*25 November 2026*
Coming into force	*26 November 2026*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 London to Holyhead trunk road and in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2), 4(2) and 124(3) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of North Wales Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990 (**2**).

Title and coming into force

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (Bethesda, Gwynedd) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 2026 and this Order comes into force on 26 November 2026.

Interpretation

2. (1) In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 124(3) was amended by section 2(2) of the Legislation (Procedure, Publication and Repeals) (Wales) Act 2025. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) S.I. 1990/1656.

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(**1**);

mae i "disg parcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir i "disg barcio" yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(**2**);

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi.

(1) At ddiben y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:

(a) bathodyn person anabl yn y safle perthnasol:

(i) yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd, neu

(ii) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn safle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd, a

(b) disg parcio yn y safle perthnasol:

(i) yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos ar y panel deialu neu'r dangosfwrdd fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd, neu

(ii) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos mewn safle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

(**1**) O.S. 2000/1786 (Cy. 123), a ddiwygiwyd gan reoliad 2(2) o O.S. 2014/3082 (Cy. 306). Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) O.S. 2000/1785 (Cy. 122).

"disabled person's badge" ("*bathodyn person anabl*") has the meaning given in regulation 2 of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(**1**);

"parking disc" ("*disg parcio*") has the meaning given in regulation 8(5) of the Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000(**2**);

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A5 London to Holyhead trunk road.

(1) For the purpose of this Order a vehicle shall be regarded as displaying:

(a) a disabled person's badge in the relevant position if:

(i) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited thereon so that the front of the badge is clearly legible from the outside of the vehicle, or

(ii) in the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited in a conspicuous position in or on the vehicle so that the front of the badge is clearly legible from outside the vehicle, and

(b) a parking disc in the relevant position if:

(i) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel the disc is exhibited thereon so that the quarter-hour period during which the period of waiting began is clearly legible from outside the vehicle, or

(ii) in the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel the disc is exhibited in a conspicuous position in or on the vehicle so that the quarter-hour period during which the period of waiting began is clearly legible from outside the vehicle.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

(**1**) S.I. 2000/1786 (W. 123), amended by regulation 2(2) of S.I. 2014/3082 (W. 306). There are other amending instruments, but none is relevant to this Order.

(**2**) S.I. 2000/1785 (W. 122).

Gwahardd aros ar unrhyw adeg

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7(1) a 7(2), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw un neu ragor o'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

Gwahardd aros rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7(1) a 7(2), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod.

Cyfyngu ar aros

5. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7(1) a 7(2), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw un neu ragor o'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sadwrn am gyfnod nad yw'n fwy na 90 o funudau, ac ni chaniateir dychwelyd o fewn 2 awr.

6. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7(3), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

Esemptiadau

7. (1) Nid oes dim yn erthyglau 3, 4 na 5 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a

Prohibition of waiting at any time

3. Save as provided in articles 7(1) and 7(2), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on any of the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

Prohibition of waiting between 09:00 hours and 18:00 hours on any day

4. Save as provided in articles 7(1) and 7(2), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order between 09:00 hours and 18:00 hours on any day.

Restriction of waiting

5. Save as provided in articles 7(1) and 7(2), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on any of the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order between 09:00 hours and 18:00 hours Monday to Saturday for a period exceeding 90 minutes, and no return within 2 hours.

6. Save as provided in articles 7(3), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on the length of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order.

Exemptions

7. (1) Nothing in articles 3, 4 and 5 renders it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in the lengths of the trunk road referred to in those articles for so long as may be necessary to enable—

(a) a person to board or alight from a vehicle;

(b) goods to be loaded on to or unloaded from the vehicle;

(c) the vehicle, if it cannot conveniently be used for that purpose in any other road, to be used in connection with any of the following operations, namely—

(i) building, industrial or demolition operations;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

ganlyn, sef—

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud ymaith unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd, neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003(**1**);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau hynny o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu, neu

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol—

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain, neu

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

(2) Nid oes dim yn erthyglau 3, 4 na 5 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gofalu am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar unrhyw ochr o'r darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, a bod un awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol pan fu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar unrhyw ochr o'r darnau penodedig o'r gefnffordd.

(3) Nid oes dim yn erthygl 6 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o'r gefnffordd y cyfeirir ato yn yr

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths of the trunk road, or

(iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to, the said lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any telegraphic line as defined in the Communications Act 2003(**1**);

(d) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory powers or duties;

(e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the said lengths of the trunk road;

(f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes, or

(g) the vehicle to stop when the person in control of it—

(i) is required by law to stop;

(ii) is obliged to stop in order to avoid an accident, or

(iii) is prevented from proceeding by circumstances outside the person's control.

(2) Nothing in articles 3, 4 or 5 renders it unlawful to cause or permit a disabled person's vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle, has marked the time at which the period of waiting began) to wait on any of the sides of the lengths of the trunk road referred to in those articles for a period not exceeding 3 hours, being a period separated by an interval of at least one hour from a previous period of waiting by the same vehicle on the same day on any of those sides of the specified lengths of the trunk road.

(3) Nothing in article 6 renders it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in the length of the trunk road referred to in that article for so long as may be necessary in connection with the operations and duties specified in paragraph (1)(c), (d), (f) and (g) of this article.

Revocation

8. The A5 Trunk Road (Bethesda, Gwynedd) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order

(**1**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(**1**) 2003 c. 21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c. 30).

2013 (Amrywio) 2015 erthygl honno cyhyd ag sy'n angenrheidiol mewn cysylltiad â'r gweithrediadau a'r dyletswyddau a bennir ym mharagraff (1)(c), (d), (f) ac (g) o'r erthygl hon.

Dirymu

8. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd Aros a Chyfyngu ar Aros) 2013(**1**) a Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd Aros a Chyfyngu ar Aros) 2013 (Amrywio) 2015(**2**) wedi eu dirymu.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Tachwedd 2026

Nicci Hunter
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

2013(**1**) and The A5 Trunk Road (Bethesda, Gwynedd) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 2013 (Variation) Order 2015 (**2**) are revoked.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated 25 November 2026

Nicci Hunter
Head of Governance and Assurance
Welsh Government

ATODLEN 1
Gwahardd aros ar unrhyw adeg ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7(1)

1. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Ffordd Bangor sy'n ymestyn o bwynt 18 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Newydd Coetmor i gyfeiriad y de-ddwyrain, hyd at bwynt 39 o fetrau i'r de o ganolbwynt y gyffordd honno.

2. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Ffordd Bangor sy'n ymestyn o'i chyffordd ag Allt Caffi i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt 9 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Rhes Victoria.

3. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Rhes Victoria i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt 12 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â mynedfa Capel Jerusalem.

SCHEDULE 1
Prohibition of waiting at any time except as provided in article 7(1)

1. That length of the northern side of the trunk road known as Bangor Road which extends from a point 18 metres north from the centre point of its junction with Coetmor New Road in a south easterly direction, to a point 39 metres south of the centre point of the said junction.

2. That length of the northern side of the trunk road known as Bangor Road which extends from its junction with Allt Caffi in a south easterly direction to a point 9 metres southeast of the centre point of its junction with Victoria Place.

3. That length of the northern side of the trunk road known as High Street which extends from a point 25 metres southeast of the centre point of its junction with Victoria Place in a south easterly direction to a point 12 metres southeast from the centre point of its junction with the access to Capel Jerusalem.

(**1**) O.S. 2013/791 (Cy. 95).
(**2**) O.S. 2015/1950 (Cy. 295).

(**1**) S.I. 2013/791 (W. 95).
(**2**) S.I. 2015/1950 (W. 295).

4. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Llain Deg i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt 10 metr i'r de o ganolbwynt y gyffordd honno.

5. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r fynedfa i'r safle ffatri i'r gogledd o Gae'r Berllan, i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt 28 o fetrau i'r de o ganolbwynt y gyffordd honno.

6. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ben mwyaf gogleddol y gilfan y tu allan i'r safle ffatri i'r gogledd o Gae'r Berllan, i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o 15 metr.

7. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Ffordd Bangor a Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 9 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd dde-ddwyreiniol â Rhes Gordon hyd at y ffin rhwng yr eiddo o'r enw 1 a 3 a 5 a 7 Stryd Fawr.

8. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Glanafon i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt 20 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

9. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 31 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Glanafon i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt 60 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd dde-ddwyreiniol â Chae Star.

10. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o'r ffin rhwng yr eiddo o'r enw rhif 11 a 12 Rhes Ogwen am bellter o 259 o fetrau i gyfeiriad y de-ddwyrain, hyd at bwynt 36 o fetrau i'r de-ddwyrain o rif 8 Rhes Douglas.

11. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd ag Adwy'r Nant i gyfeiriad y de am bellter o 51 o fetrau.

12. Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 23 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd ag Adwy'r Nant hyd at bwynt 54 o fetrau i'r gogledd o'r un gyffordd.

4. That length of the northern side of the trunk road known as High Street which extends from a point 10 metres northwest from the centre point of its junction with Llain Deg in a south easterly direction to a point 10 metres south of the centre point of the said junction.

5. That length of the northern side of the trunk road known as High Street which extends from a point 25 metres north from the centre point of its junction with the access to the factory site north of Cae'r-berllan, in a south easterly direction to a point 28 metres south of the centre point of the said junction.

6. That length of the northern side of the trunk road known as High Street which extends from the northernmost end of the layby outside the factory site north of Cae'r-berllan, in a south easterly direction for a distance of 15 metres.

7. That length of the southern side of the trunk road known as Bangor Road and High Street which extends from a point 9 metres northwest from the centre point of its southeastern junction with Gordon Terrace to the boundary between the properties known as 1 & 3 and 5 & 7 High Street.

8. That length of the southern side of the trunk road known as High Street which extends from a point 10 metres northwest from the centre point of its junction with Glanafon Street in a south easterly direction to a point 20 metres northwest of the centre point of the said junction.

9. That length of the southern side of the trunk road known as High Street which extends from a point 31 metres southeast from the centre point of its junction with Glanafon Street in a south easterly direction to a point 60 metres southeast of the centre point of its southeastern junction with Cae Star.

10. That length of the southern side of the trunk road known as High Street which extends from the boundary between the properties known as number 11 and 12 Ogwen Terrace for a distance of 259 metres in a south easterly direction, to a point 36 metres south east of number 8 Douglas Terrace

11. That length of the northern side of the trunk road known as High Street which extends from the centre point of its junction with Adwy'r Nant in a southerly direction for a distance of 51 metres.

12. That length of the eastern side of the trunk road known as High Street that extends from a point 23 metres north of the centre point of its junction with Adwy'r Nant to a point 54 metres to the north of the same junction.

ATODLEN 2
Dim aros rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod

Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Ffordd Bangor sy'n ymestyn o bwynt 65 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd ag Allt Caffi i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt 45 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

SCHEDULE 2
No waiting between 09:00 hours and 18:00 hours on any day

That length of the northern side of the trunk road known as Bangor Road which extends from a point 65 metres northwest from the centre point of its junction with Allt Caffi in a south easterly direction to a point 45 metres northwest of the centre point of the said junction.

ATODLEN 3
Cyfyngu ar aros i 90 o funudau a dim dychwelyd o fewn 2 awr rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sadwrn

1. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 9 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Rhes Victoria i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt 25 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

2. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o'r ffin rhwng yr eiddo o'r enw 1 a 3 a 5 a 7 Stryd Fawr i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt 26 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Glanafon.

3. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Glanafon i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt 31 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

4. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 60 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd dde-ddwyreiniol â Chae Star i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at y ffin rhwng yr eiddo o'r enw rhif 2 a 3 Rhes Ogwen.

5. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o'r ffin rhwng yr eiddo o'r enw rhif 7 ac 8 Rhes Ogwen i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at y ffin rhwng yr eiddo o'r enw rhif 11 a 12 Rhes Ogwen.

SCHEDULE 3
Waiting restricted to 90 minutes no return within 2 hours between 09:00 hours and 18:00 hours Monday to Saturday

1. That length of the northern side of the trunk road known as High Street which extends from a point 9 metres southeast of the centre point of its junction with Victoria Place in a south easterly direction to a point 25 metres southeast of the centre point of the said junction.

2. That length of the southern side of the trunk road known as High Street which extends from the boundary between the properties known as 1& 3 and 5 & 7 High Street in a south easterly direction to a point 26 metres northwest of the centre point of its junction with Glanafon Street.

3. That length of the southern side of the trunk road known as High Street which extends from a point 10 metres southeast of the centre point of its junction with Glanafon Street in a south easterly direction to a point 31 metres southeast of the centre point of the said junction.

4. That length of the southern side of the trunk road known as High Street which extends from a point 60 metres southeast of the centre point of its southeastern junction with Cae Star in a south easterly direction to the boundary between the properties known as number 2 and 3 Ogwen Terrace.

5. That length of the southern side of the trunk road known as High Street which extends from the boundary between the properties known as number 7 and 8 Ogwen Terrace in a south easterly direction to the boundary between the properties known as number 11 and 12 Ogwen Terrace.

ATODLEN 4
Gwahardd aros ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7(3) (y tu allan i Orsaf Heddlu Bethesda)

Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Glanafon hyd at bwynt 26 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno y tu allan i'r eiddo o'r enw Gorsaf Heddlu Bethesda.

SCHEDULE 4
Prohibition of waiting except as provided in article 7(3) (Outside Bethesda Police Station)

That length of the southern side of the trunk road

known as High Street which extends from a point 20 metres northwest of the centre point of its junction with Glanafon Street to a point 26 metres northwest of the said junction outside the property known as Bethesda Police Station.